# Diweddariad Covid-19 – Newidiadau Diweddaraf i Bolisïau

Paratowyd gan Kite Consulting

*Gwybodaeth yn gywir am 2:00pm ar 30.04.2020*

## Cefnogaeth i Fusnesau gan y Llywodraeth yn ystod y Pandemig Covid-19:

### Benthyciadau Adfer (Bounce Back):

Mae'r llywodraeth wedi lansio'r cynllun Benthyciadau Adfer (Bounce Back) yr wythnos hon. Mae'n gynllun cyllid carlam i gefnogi busnesau bychain sy'n wynebu problemau llif arian o ganlyniad i Covid-19. Dylai hyn gynnwys ffermydd llaeth sy'n gweld lleihad sylweddol mewn prisiau neu gyfaint llaeth, oedi o ran taliadau llaeth neu golledion o ran incwm llaeth. Bydd modd ymgeisio o **4 Mai 2020** ymlaen.

- Mae benthyciadau o hyd at 25% o'ch refeniw blynyddol ar gael hyd at uchafswm o £50,000 ac isafswm o £2,000 gyda hyd at 6 mlynedd i ad-dalu'r benthyciad.
- Bydd gwarant o 100% ar gael gan y llywodraeth i fenthycwyr.
- Ni fydd ad-daliadau'n ddyledus yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl derbyn y benthyciad.
- Bydd y llywodraeth yn talu unrhyw gostau a godir gan y banc a'r llog am y 12 mis cyntaf.
- Rhagwelir y bydd modd derbyn benthyciad adfer o fewn dyddiau i ymgeisio. Dylai busnesau dderbyn eu benthyciadau o fewn 24 i'r cais yn cael ei gymeradwyo.
- Bydd busnesau sydd eisoes wedi derbyn benthyciad CBILS hyd at £50,000 yn gallu trosglwyddo'r swm hwnnw i'r cynllun adfer os byddant yn gwneud hynny cyn 4 Tachwedd 2020.

### Gwahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r cynllun CBILS:

- Bydd y warant uwch gan y llywodraeth yn galluogi'r broses i fod yn llai caeth nag ar gyfer benthyciadau CBILS a bydd yn cynnwys ffurflen fer, safonol ar-lein.
- Ni fydd unrhyw ad-daliadau cyfalaf na llog yn ddyledus yn ystod 12 mis cyntaf y benthyciad.
- Dylai benthyciadau Adfer gael eu prosesu'n gyflymach o lawer a dylid derbyn yr arian yn llawer cynt.
- Mae cyfanswm y benthyciad Adfer wedi'i gyfyngu i uchafswm o £50,000 o'i gymharu â'r trothwy uchaf o £5 miliwn ar gyfer CBILS.

Bydd rhagor o fanylion am y cynllun yn dilyn unwaith y bydd yn mynd yn fyw.